# COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHAS

## Strategaeth y Sefydliad Ymchwil

Sefydliad Ymchwil Bangor i’r Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas

Sefydliad yw hwn sy’n gwneud ymchwil arobryn, sy'n rhagorol yn rhyngwladol ac sy'n cael effaith ar draws meysydd pwnc sy'n cynnwys iaith a llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r cyfryngau, astudiaethau ariannol a masnach, cyfathrebu, arloesi, rheoleiddio, cydraddoldeb, llesiant a gwytnwch, cyfiawnder, hunaniaethau, addysg athrawon ac astudiaethau cymunedol ymhlith eraill. Cyfunir rhagoriaeth academaidd ag ymgysylltiad cymunedol, effaith polisi, a chyfraniadau creadigol a diwylliannol, ynghyd ag ymrwymiad cryf i gynaliadwyedd ar sail lle mewn ymchwil a thrwy ymchwil. Mae ymchwilwyr o bedair ysgol yn rhan o’r sefydliad:

- Ysgol Iaith, Diwylliant a’r Celfyddydau
- Ysgol Busnes Bangor
- Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas
- Ysgol Addysg

Fel endid a grëwyd i gefnogi ymchwil ac effaith ar draws Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas, mae’r sefydliad yn cael ei arwain gan y cyfarwyddwr (neu gan dîm sy’n rhannu’r gwaith), ac yn gweithio gyda Chyfarwyddwr Ymchwil Ôl-radd y coleg. Mae gan bob ysgol Gyfarwyddwr Ymchwil, Effaith ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am greu amgylchedd ymchwil bywiog a chynaliadwy o fewn yr ysgol, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-radd yr ysgol. Ar y cyd, mae’r tîm arweinyddiaeth hwn yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu strategaethau ymchwil ac yn cefnogi datblygiadau thematig sy’n addas i bob ysgol, gan gefnogi effeithlonrwydd, cydweithredu, sicrhau bod nodau a chydlyniad cyffredin ar draws y sefydliad a chydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ac arbenigeddau unigol mewn cymuned lle ceir ffyniant a rhagoriaeth o ran ymchwil. Mae hyn yn cynnwys ymchwilwyr ar lefelau ôl-radd, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ac uwch-ymchwilwyr. Gellir rhannu cyfrifoldebau’r Cyfarwyddwyr Ymchwil, Effaith ac Ymgysylltu, a chynnig cefnogaeth bellach trwy gyfrwng swyddogaethau arweinwyr ymchwil cysylltiedig. Ym mhob ysgol, mae lwfansau ymchwil a chyllid sbarduno ar gael i gefnogi ymdrechion i ddatblygu ymchwil ac effaith a chefnogaeth helaeth hefyd mewn perthynas â chyfleoedd cyllido mewnol ac allanol, ynghyd â’r cyfle i wneud cais am gyfnod o absenoldeb astudio a gyllidir gan y sefydliad.

Mae ymchwil y sefydliad wedi ei seilio'n gadarn ar ymdeimlad o le trwy gyfrwng diwylliant, perthnasedd cymharol, cyfryngedd, llenyddiaeth, iaith, cerddoriaeth, hanes, technoleg, addysg a sefydliadau, ynghyd â diddordeb yn natur newidiol cymunedau, cenhedloedd, strwythurau llywodraethu a chyfiawnder. Fel un enghraifft allweddol, mae’r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil, Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) yn meithrin cydweithrediadau allanol gyda Llywodraeth Cymru, CaBan, GwE ac ysgolion ar draws y rhanbarth, gan fynd i’r afael (fel llawer o’r themâu a’r canolfannau ymchwil a nodir isod) â Llesiant Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol mewn sawl ffordd. Mae ein themâu ymchwil a nodir isod, yn caniatáu i ymchwilwyr o bob rhan o'r coleg a'r brifysgol ehangach gydweithredu a chynhyrchu ymchwil arloesol, rhyngddisgyblaethol sydd gyda'r gorau yn y byd ac yn cyd-fynd â phwyslais strategol y brifysgol. Nid yw hyn yn eithrio nac yn anwybyddu meysydd rhagoriaeth ymchwil penodol y tu hwnt i'r themâu hynny, ond

mae'n cynnig set ehangach o faterion thematig mae llawer o'n hymchwil yn ymffurfio o'u cwmpas, ar y cyd â dau sefydliad ymchwil arall y brifysgol.

Cymru fel Cenedl yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Byd

Mae gan Fangor draddodiad balch o ymchwil gyda'r gorau yn y byd mewn Astudiaethau Celtaidd, a phwyslais neilltuol a chysylltiadau rhyngwladol parthed hanes, diwylliant, llenyddiaeth, iaith, addysg, economi a gwleidyddiaeth Cymru. Mae’r sefydliad yn gartref i rai o brif grwpiau a chanolfannau ymchwil Cymru, dan arweiniad haneswyr blaenllaw yn hanes Cymru, arbenigwyr yng nghyfraith Cymru, a diwylliant, cerddoriaeth, llenyddiaeth a barddoniaeth Cymraeg a Chymreig.

- Canolfan Ymchwil Cymru
- Canolfan R.S. Thomas
- Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru
- Y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd
- Clwstwr Hyrwyddo Dwyieithrwydd ac Addysg Gymraeg CIEREI
- Canolfan Ymchwil Rhanbarth ar gyfer rhanbarthau ac economïau cynaliadwy

Mae’r thema hon yn gosod Cymru wrth ei chraidd, gan gynnwys gweithgarwch sylweddol sy’n cefnogi nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae’r cylch gorchwyl hefyd yn cynnwys negodi, yn llenyddol ac yn hanesyddol, ffiniau diwylliannol yn fwy cyffredinol, yn ogystal â chysylltiadau rhwng Cymru a’r Deyrnas Unedig, Ewrop a’r byd, gan drafod pryderon a chyfraniadau lleol yng ngoleuni ffenomenau mwy pellgyrhaeddol ym maes cynaliadwyedd a thu hwnt i hynny.

Cymunedau Gwydn trwy Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chymdeithas Sifil

Mae ein hymchwilwyr yn astudio ac yn ymarfer agweddau ar ddiwylliant, addysg a'r celfyddydau, gan feithrin dealltwriaeth o elfennau'r gymdeithas sifil sy'n cryfhau gwytnwch cymunedol i ymdopi â newidiadau a heriau cyfoes yn seiliedig ar le. Yn seiliedig ar adnoddau archifol a chyfoes sylweddol, ynghyd â gweithgarwch artistig, a thrwy ymchwil gwerthuso ac ymyriadau, maent yn cyfrannu'n weithredol at iechyd, llesiant a gwytnwch cymunedau, yn cynnwys diwylliant a'r celfyddydau i roi lle i astudio cymdeithas sifil ar waith, yn ogystal ag arbenigedd am ddefnyddwyr a thwristiaeth. Ochr yn ochr â gweithgarwch mawr ym meysydd ysgrifennu creadigol, cyfansoddi cerddorol a pherfformio ac ymyriadau mewn ysgolion ac ymyriadau i rieni, mae ein grwpiau ymchwil yn y maes hwn yn cynnwys:

- Canolfan Ymchwil Lleoliadau Newid Hinsawdd
- Y Ganolfan dros Farddoniaeth Gyfoes
- Canolfan Stephen Colclough ar Hanes a Diwylliant y Llyfr
- Y Ganolfan Astudiaethau Ffilm, Teledu a Sgrin
- Clwstwr Optimeiddio Lles a Gwytnwch CIEREI

Mae’r thema hon, yn ogystal ag ategu’r thema sy’n canolbwyntio ar Gymru, yn cynnwys astudiaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngddiwylliannol sy’n mynd i’r afael â lleiafrifeiddio, ymyleiddio, hunaniaethau a pherthyn, gan rychwantu diwylliannau a chymdeithasau amrywiol yn Ewrop a thu hwnt, ac yn cynnwys ymchwil sy’n canfod cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer perfformiadol.

Llywodraethu, Economi, Sefydliadau, Cydraddoldeb a Chyfiawnder mewn Cyfnodau o Newid

Mae cymunedau ledled y byd wedi eu cysylltu mewn gwead cymhleth o lywodraethiant, cysylltiadau ariannol ac economaidd, pobl yn mudo, a chwestiynau ynghylch cwmpas a natur sefydliadau ac egwyddorion cydraddoldeb a chyfiawnder. Mae diddordebau cystadleuol cymunedau lleol, cenedl-wladwriaethau, a systemau economaidd byd-eang a rhyngwladol yn gofyn am ymchwil ymatebol i reoliadau a llywodraethiant, sefydliadau ac astudiaethau cymunedol. Mae ein heconomegwyr, ein cyfreithwyr, ein gwyddonwyr cymdeithasol a'n haneswyr yn archwilio'r cysylltiadau cymhleth hynny a sut mae cwestiynau ynglŷn â phŵer, gwleidyddiaeth a heriau byd-eang yn effeithio arnynt. Mae’r grwpiau ymchwil perthnasol yn cynnwys:

- Y Ganolfan dros Gynaliadwyedd
- Sefydliad Cyllid Ewropeaidd
- Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)
- Labordy Deallusrwydd Artiffisial Emosiynol
- Clwstwr Gwella Tegwch a Chynhwysiant CIEREI

Cyfathrebu, Addysg, Iaith, a'r Cyfryngau

Saif Prifysgol Bangor mewn amgylchedd dwyieithog sy'n hwyluso'r cryfderau rhagorol sydd ganddi ym meysydd amlieithrwydd a dwyieithrwydd a defnydd iaith mewn amryw o gyd-destunau cyfathrebol, gan gwmpasu rhagoriaeth ymchwil mewn polisi a chynllunio iaith, caffael iaith gyntaf ac ail iaith, addysg ddwyieithog, dadansoddi disgwrs ac astudiaethau corpws, defnydd cymunedau a chymdeithas sifil o iaith a'r goblygiadau i hunaniaeth, yn ogystal â chyfraniad technoleg at ddatblygiad iaith. Mae ymchwilwyr yn y thema hon yn cyfrannu at brofiadau dysgu o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc ledled y wlad trwy wella’r ddarpariaeth Gymraeg ar draws ysgolion Cymru a meithrin arferion addysgeg effeithiol. Mae ymchwil yn y thema hon hefyd yn codi cwestiynau ehangach am berthynas iaith a chyfathrebu ac addysg fel math o bŵer, trwy gyfathrebu corfforaethol, moeseg, newyddiaduraeth, cyfathrebu perswadiol a'r cyfryngau, gyda’r ddealltwriaeth honno’n cyfrannu at bolisïau ac ymarfer yng Nghymru. Mae ein canolfannau ymchwil a'n rhwydweithiau'n cynnwys:

- Canolfan Bedwyr a’r Uned Technolegau Iaith
- Y Ganolfan Astudiaethau Galisaidd yng Nghymru
- Rhwydwaith Astudio'r Cyfryngau a Chyfathrebu Perswadiol
- Rhwydwaith Ymchwil Technoleg ac Iaith
- Y Labordy Adfywio Iaith
- Clwstwr Addysg Athrawon, Arweinyddiaeth Systemau ac Ymarfer Proffesiynol CIEREI

## Blaenoriaethau Strategol y Sefydliad ar gyfer Ymchwil

Mae'r strategaeth hon yn ystyried bod ymchwil yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cyhoeddi, denu grantiau, ymgysylltu ac estyn allan, llwybrau at effaith, arloesi a chyfnewid gwybodaeth.

Caiff blaenoriaethau strategol y sefydliad ar gyfer ymchwil eu llunio yng nghyd-destun ymrwymiad Prifysgol Bangor i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Egwyddorion Cynaliadwyedd. Mae ymchwil yn y

sefydliad yn ystyried yr un egwyddor datblygu cynaliadwy; y pedair colofn cynaliadwyedd; y pum ffordd o weithio tuag at gynaliadwyedd; a’r saith nod llesiant.

Rhagoriaeth mewn Ymchwil, Ymgysylltu ac Effaith

Mae'r sefydliad yn hwyluso ymchwil, ymgysylltu, ac effaith rhagoriaeth ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol trwy ein themâu ymchwil, a gydnabyddir trwy gyhoeddiadau a gwobrau proffil uchel, o ansawdd uchel ac a adolygir gan gymheiriaid, ennill grantiau o bwys a mathau eraill o gydnabyddiaeth allanol. Mae pwyslais penodol ar yr isod:

- Cefnogi Strategaeth Ymchwil ac Effaith 2030 Prifysgol Bangor y mae cynaliadwyedd yn elfen greiddiol ohoni
- Ymgorffori ymgysylltu a chydweithio yn ein mentrau academaidd, a thrwy hynny gwneud llwybrau at effaith yn rhan o’r broses ymchwil
- Mentora, adborth a chyngor mewn perthynas â syniadau ymchwil, ceisiadau grant, a gweithgarwch ymgysylltu, effaith ac arloesi
- Mynediad at ymchwilwyr y sefydliad sydd â phrofiad o ennill grantiau ac at aelodau paneli dyfarnu ymchwil, yn enwedig yr UKRI
- Ymgysylltu ag ymchwilwyr cenedlaethol a rhyngwladol trwy seminarau, gweithdai a chynllun ymchwilwyr ar ymweliad
- Cysylltu ein hymchwil â'r gymuned ehangach i sicrhau bod ymchwil yn cefnogi’r gwaith o greu gwytnwch cymunedol
- Datblygu cysylltiadau cydweithredol cynaliadwy â phartneriaid allanol sy’n mynd i’r afael â blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd yn y sector preifat, cyhoeddus neu’r trydydd sector, gan atgyfnerthu cysylltiadau â chymdeithas a diwydiant
- Hwyluso ac annog cyd-gynhyrchu cynigion cyllid yn strategol gyda rhanddeiliaid - gwneud yn fawr o gyfleoedd am gyllid cydweithredol megis Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a Phartneriaethau Hyfforddiant Doethurol cydweithredol
- Gwella'r pwyslais ar strategaeth ddiwydiannol foesegol, arloesi, masnacheiddio a chysylltiadau dinesig
- Targedu meysydd o angen cymdeithasol a chyfleoedd ariannu
- Ymgysylltu â llywodraeth a senedd Cymru a’r Deyrnas Unedig yn ogystal â chynghorau lleol, dylanwadu ar bolisïau a datblygu projectau ymchwil gyda’r bwriad o gyfrannu at lunio agendâu llywodraeth
- Cefnogi Cynllun Strategol 'Bangor 2050' Prifysgol Bangor sy'n hyrwyddo lledaeniad a defnydd o’r Gymraeg, trwy ymchwil ac ymarfer.

Cefnogaeth i Ymchwilwyr

Mae'r sefydliad yn llwyr ymrwymedig i'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr ac mae'n darparu cefnogaeth i ymchwilwyr ymhob cam o'u gyrfaoedd. Rydym yn cefnogi ymchwilwyr fel a ganlyn:

- Annog cyfranogiad rheolwyr ymchwil ac ymchwilwyr mewn rhaglenni hyfforddi perthnasol
- Cynnwys cynrychiolwyr sy’n ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ym Mhwyllgor Strategaeth Ymchwil ac Effaith y sefydliad a'i weithgareddau

- Cydnabod amrywiaeth y gweithgarwch ymchwil, ymgysylltu ac effaith sydd ar waith yn y sefydliad gan gynnwys ymarfer creadigol fel ymchwil ac ymgysylltu diwylliannol
- Mentora i gefnogi'r gwaith o ddenu grantiau a datblygu gyrfaoedd ymchwil
- Annog a chydnabod cyfraniadau ymchwilwyr at baneli dyfarnu ymchwil, cymdeithasau dysgedig, a gwaith i gyfnodolion a gwaith golygyddol arall
- Neilltuo amser ar gyfer ymchwil trwy gefnogi'r egwyddor o sicrhau cydraddoldeb o ran amser gwarchodedig mewn ysgolion a thrwy gynnig absenoldeb astudio ledled y sefydliad pan fo cyfiawnhad dros wneud hynny
- Cynrychioli buddiannau a llais cymuned ymchwil y sefydliad yn y brifysgol
- Cefnogi'r gydnabyddiaeth a roddir i ymchwilwyr trwy fesurau allanol o ragoriaeth ymchwil megis y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

<u>Heriau Mawr, Ymatebion Cymdeithasol a Rhyngddisgyblaeth.</u>

Mae ymchwil rhyngddisgyblaethol yn cynhyrchu ffurfiau newydd o wybodaeth, arloesi, dealltwriaeth newydd ac allbynnau creadigol sydd eu hangen i roi sylw i'r heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas yn fyd-eang. Mae'r sefydliad yn llwyfan i annog a hwyluso gweithgarwch ymchwil, ymgysylltu ac effaith rhyngddisgyblaethol, gan gysylltu ysgolion ar draws y sefydliad, yn ogystal ag ar draws y tri sefydliad yn y brifysgol a'r ysgolion sy'n rhan ohonynt. Gwneir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Trefnu digwyddiadau sefydliad cyfan ac ar y cyd a'r sefydliadau eraill
- Cynnwys y sefydliad yn rhan o fentrau strategol y brifysgol gyfan
- Sefydlu mecanweithiau i fonitro blaenoriaethau'r llywodraeth, a pharu ymchwilwyr a phrojectau â chynlluniau cyllid grant perthnasol cyn gynted ag y byddant ar gael
- Cefnogi cydweithredu a cheisiadau grant rhyngddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol
- Codi ymwybyddiaeth o lwyddiannau, blaenoriaethau a chryfderau ymchwil, ymgysylltu ac effaith y sefydliad ledled y brifysgol, y gymuned ehangach, ac yn rhyngwladol

<u>Strategaeth Fonitro – nod y sefydliad yw:</u>

- Galluogi ac annog pob ymchwilydd i wneud cais am gyllid ymchwil priodol (o ystyried lefel gyrfa a'r ddisgyblaeth benodol) ac o ansawdd uchel yn rheolaidd
- Cynyddu'n barhaus nifer ac ystod y ceisiadau grant llwyddiannus
- Ymgorffori gweithgareddau ymgysylltu ym mhob project ymchwil o'r cychwyn cyntaf
- Cynyddu nifer y cyhoeddiadau o ansawdd uchel trwy fframwaith cyhoeddi cydlynol gyda'r pwyslais ar ansawdd yn hytrach na swmp
- Annog digwyddiadau rhwydweithio rhyngddisgyblaethol a chymryd rhan mewn nifer cynyddol o geisiadau grant rhyngddisgyblaethol
- Annog meithrin timau yn y sefydliad a thu hwnt, gyda'r bwriad o ddenu grantiau mawr.